# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Gynradd Talsarnau
## Talsarnau
## Gwynedd
## LL47 6TA

**Rhif yr Ysgol: 6612210**

**Dyddiad yr Arolygiad: 15/04/08**

**gan**


**Nicholas Jones**

**79685**



**Dyddiad Cyhoeddi: 19/6/08**

**O dan rif contract Estyn: 1119007**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

97. Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda ac yn cynnwys nifer o agweddau rhagorol. Mae'n cael ei integreiddio i fywyd bob dydd yr ysgol. Mae'r agweddau hyn o'u datblygiad yn cael eu hybu'n dda iawn trwy'r cyfleoedd gwych a gaiff y disgyblion i gyd i drafod materion moesol yng ngweithgareddau'r ystafell ddosbarth. Caiff y rhain eu datblygu ymhellach gan fentrau'r disgyblion i godi arian i achosion da yn lleol ac yn genedlaethol. Wrth ymweld â'r gymuned ac wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r gymuned darperir cyfleoedd ar gyfer datblygiad cymdeithasol da.

100. Mae'r gwasanaethau addoli a'r cyfarfodydd boreol dyddiol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygiad ysbrydol yr holl ddisgyblion a darperir cyfleoedd da i'r holl ddisgyblion fyfyrio'n dawel a meddylgar ynghylch materion pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yr holl ddisgyblion yn dda mewn pynciau megis Cerddoriaeth ac yn ystod amser trafod mewn cylch. Caiff y disgyblion gyfle i wrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth ac maent yn ymateb ag ofn a syndod i'r teimladau a'r awyrgylch a gynhyrchir wrth wrando ar ddarnau arbennig o gerddoriaeth.

102. Caiff yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ddiwylliannau eraill trwy bynciau megis Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol.

**Addysg grefyddol**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

326 Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn dangos ymwybyddiaeth dda o werthoedd a chredoau Cristnogol megis rhannu ag eraill a gofalu amdanynt. Trwy eu hymdrechion i gasglu arian ar gyfer elusennau cenedlaethol a rhyngwladol, datblyga'r holl ddisgyblion ymwybyddiaeth eu bod yn rhan o gymuned fyd-eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn.

327 Wrth ymweld â lleoedd o addoliad yn yr ardal, datblyga'r holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o arwyddocâd y prif nodweddion a berthyn i adeiladau crefyddol megis y bedyddfaen a'r pulpud. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o'r seremonïau arbennig a gynhelir mewn lleoedd o'r fath megis bedydd a phriodasau. Mae ganddynt wybodaeth dda o rai o brif hanesion y Beibl.

328 Mae'r disgyblion i gyd yn trafod pwysigrwydd perthyn i deulu a chael ffrindiau. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o addoliad a gweddi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o ystyr gweddïo fel ffordd o siarad â Duw ac maent yn cyfansoddi eu gweddïau effeithiol a meddylgar eu hunain pan fo angen.

329 Ar draws y cyfnodau allweddol, mae'r holl ddisgyblion yn arddangos gwybodaeth dda o ddathliadau Cristnogol y Cynhaeaf a'r Nadolig. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r digwyddiadau allweddol yn y calendr Cristnogol megis y Grawys, y Pasg a'r Nadolig. Mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd traddodiadau Iddewig ac maent yn ymwybodol o'r symbolaeth sy'n gysylltiedig â dathliadau Iddewig.

330 Mae gan y disgyblion ifancaf yng nghyfnod allweddol 2 wybodaeth dda o hanesion y Beibl ac amrediad o storïau eraill sy'n amlygu pwysigrwydd gwerthoedd a chael perthynas dda ag eraill.

331 Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r disgyblion yn datblygu medrau ymresymu a dysgu trwy gyfrwng eu hastudiaeth bellach o grefyddau'r byd ac maent yn agored eu meddwl a chadarnhaol tuag at bobl sydd â chredoau gwahanol. Maent yn meddwl yn dda am faterion crefyddol a materion cyffredinol, bob dydd.

332 Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd hanesyddol y ffydd Gristnogol yng Nghymru. Atgyfnerthir hyn gan storïau sy'n cysylltu'n effeithiol iawn â'r Cwricwlwm Cymreig.

333 Dônt yn ymwybodol bod gan grefyddau eraill leoedd o addoliad ac arteffactau cysegredig. Mae disgyblion yn cymharu a chyferbynnu'n gymwys brif nodweddion Cristnogaeth gyda chrefyddau eraill y byd.

334 Mae'r disgyblion hynaf yn meddwl am faterion crefyddol ac yn a ffurfio'u barn eu hunain yn dda iawn. Arddangosant fedrau ymresymu a chyfathrebu da iawn o fewn grwpiau bach yn ogystal â thrafodaethau dosbarth cyfan. Arddangosant frwdfrydedd naturiol wrth gymryd rhan mewn dadl, a chynorthwya hyn eu dealltwriaeth o faterion mwy cymhleth.

335 Yn sgil eu gwaith ar Martin Luther King a Rosa Parks, mae'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r modd y mae ffordd o fyw pobl yn cael ei dylanwadu gan eu credoau crefyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos dealltwriaeth dda o sut i gydymdeimlo, rhannu teimladau a phenderfynu ar eu cyfrifoldebau cymdeithasol a moesol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir iawn o'r angen i neilltuo amser i feddwl ynghylch materion pwysig.

336 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso moeswersi a hanesion crefyddol at sefyllfaoedd ein dyddiau ni. Adroddant eu profiadau eu hunain a chynnig awgrymiadau craff ar bwysigrwydd gofalu am eraill. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bod yn gymdogion da mewn cyd-destun byd-eang wrth iddynt ystyried gwrthdaro a thrychinebau. Trwy gyfrwng gwaith trawsgwricwlaidd mae'r disgyblion i gyd yn dangos ymwybyddiaeth dda o faterion yn ymwneud â thlodi a digartrefedd.

**Diffygion**

337 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.